
Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Dyfodol gofal canser yng Nghymru: Arloesi ym maes gofal canser

## Crynodeb gweithredol




# Arloesi ym maes gofal canser

IBydd arloesi ar gyfer canfod, diagnosio, monitro a thrin canser yn cael effaith fawr ar y galw am wasanaethau canser yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r datblygiadau diweddar yn y meysydd hyn, gan gynnwys datblygiadau arloesol sy'n dechrau cael eu cyflwyno ar draws systemau gofal iechyd, a'r rhai sy'n cael eu profi ar hyn o bryd mewn treialon clinigol. Lle bo hyn ar gael, nodwyd data sy'n ymwneud â'r effaith y gallai'r adnoddau hyn ei chael ar y galw am adnoddau gofal iechyd.

Mae rhaglenni sgrinio canser ar gyfer canser y coluddyn, canser ceg y groth a chanser y fron yn cael eu cynnal ar draws y GIG, ac mae rhaglenni sgrinio iechyd yr ysgyfaint wrthi'n cael eu cyflwyno. Mae adnoddau wedi cael eu datblygu i wella effeithlonrwydd a hygyrchedd y rhaglenni hyn, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial (AI) i ddadansoddi delweddau radiolegol a phecynnau profi anymwthiol/hunanbrofi ar gyfer casglu samplau. Ar ben hynny, mae profion canfod mwy nag un canser yn cael eu treialu yn GIG Lloegr. Bydd canlyniadau'r treialon hyn yn sail i argymhellion gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU, a allai arwain at newidiadau sylweddol mewn sgrinio canser yng Nghymru.

Mae tystiolaeth yn dangos bod sgrinio canser yn arwain at ganfod clefydau'n gynharach, sydd yn ei dro yn cael effaith gofal iechyd sy'n gysylltiedig â chyfran uwch o bobl yn cael triniaethau wedi’u cynllunio ar gyfer canserau cyfnod cynnar. Mae technolegau sgrinio posib ar gyfer canser y prostad yn cael eu hasesu ar hyn o bryd mewn astudiaethau clinigol.

Mae offer diagnostig newydd fel AI, roboteg a biopsïau hylif yn cael eu datblygu hefyd. Gellir defnyddio AI wrth ddadansoddi delweddau radiolegol a phatholegol, ac wrth nodi symptomau canser o nodiadau meddygol cleifion heb strwythur.











Mae hyn yn arwain at roi diagnosis cynharach i gleifion, sydd eto'n gwella canlyniadau. Mae systemau roboteg, gan gynnwys broncosgopau a cholonosgopau robotig, hefyd yn cael eu datblygu, sydd â'r potensial i leihau'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r triniaethau hyn. Profion gwaed yw biopsïau hylif y gellir eu defnyddio i gael diagnosis anymwthiol o ganser, gan leihau'r amser a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chynnal biopsïau meinwe.

Gellir defnyddio adnoddau gofal iechyd digidol fel dyfeisiau y gellir eu gwisgo ac apiau symudol i fonitro cleifion canser o bell y tu allan i ysbytai, gan gynnwys drwy sefydlu wardiau rhithiol. Yn ogystal, mae'n bosib y bydd biopsïau hylif yn cael eu defnyddio i fonitro canser ac mae'n bosib y byddant yn gallu canfod canser sy'n dychwelyd yn gynt na'r profion presennol.

Yn olaf, gall triniaethau canser newydd, gan gynnwys therapïau celloedd a genynnau, brechlynnau canser a llawdriniaeth robotig hefyd helpu i leihau'r baich ar systemau gofal iechyd. Er bod y triniaethau hyn yn ddrud ar hyn o bryd, mae ganddynt y potensial i wella canlyniadau cleifion yn sylweddol. Ar hyn o bryd mae cannoedd o ymgeiswyr yn cael eu hasesu mewn treialon clinigol. Yn ogystal, mae grwpiau ymchwil yn ymchwilio i weld a oes modd datblygu brechlynnau canser ataliol, a fyddai'n cael effaith sylweddol ar ofal canser byd-eang.

Er bod gan y datblygiadau arloesol hyn botensial sylweddol, byddai integreiddio'r adnoddau hyn mewn model i ddiffinio sut byddant yn effeithio ar leoliadau gofal canser dros y 5-10 mlynedd nesaf yn destun ansicrwydd enfawr oherwydd diffyg tystiolaeth glinigol hirdymor yn y byd go iawn o'r effaith byddant yn ei chael.

## Eisiau gwybod mwy?

Anfonwch e-bost at helo@hwbgbcymru.com i gael yr adroddiad llawn, gan gael mynediad at fewnwelediadau, ystadegau a gwybodaeth allweddol am dirwedd canser Cymru.

## Gwybodaeth am y Sector

Mae ein tîm yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth am dueddiadau'r farchnad, anghenion cwsmeriaid a thirwedd ehangach y diwydiant. Mae hyn yn siapio strategaethau, yn nodi risgiau ac yn dod o hyd i gyfleoedd twf cyffrous. Mae sefydliadau comisiynu yn cynnwys busnesau bach a chanolig, byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru, a'r byd academaidd.

## Gwybodaeth am Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Rydyn ni'n gyrru'r gwaith o ddatblygu a defnyddio arloesedd gwyddorau bywyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydyn ni'n rhyngwyneb deinamig, sy'n cysylltu arloeswyr gwyddorau bywyd â phartneriaid ymchwil, cyfleoedd cyllido, defnyddwyr a thimau iechyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen i gefnogi llesiant, ac yn y pen draw, i greu twf, swyddi a ffyniant ledled Cymru.

## Sut gallwn ni eich helpu chi

E-bostiwch helo@hwbgbcymru.com i gael gwybod sut gall ein cymorth ni helpu eich arloesedd i gyrraedd y rheng flaen.

lshubwales.com/cy

helo@hwbgbcymru.com

Chwefror 2025